



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylch Gwaith Panel Cynggori Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi:
Tachwedd 2020



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.org
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.org
-

Cynnwys

| | | |
|----|--|---|
| 1 | Cefndir y Pael Cyngori | 1 |
| 2 | Penodi'r Panel Cyngori | 1 |
| 3 | Rôl y Panel Cyngori | 2 |
| 4 | Nifer Aelodau'r Panel Cyngori | 3 |
| 5 | Cyfarfodydd y Panel Cyngori | 4 |
| 6 | Rhybudd am gyfarfodydd | 4 |
| 7 | Lleoliad cyfarfodydd | 4 |
| 8 | Ysgrifenyddiaeth | 4 |
| 9 | Cyswllt y Comisiynydd ag Aelodau'r Panel Cyngori | 5 |
| 10 | Trefniadau Talu | 5 |
| 11 | Rhoddion a Lletygarwch | 6 |
| 12 | Gwrthdaro Buddiannau | 6 |

1 Cefndir y Panel Cyngkori

- 1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiynydd y Gymraeg. Mae Rhan 3, Cymal 23 (1) i (4) o'r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd a gaiff ei alw'n Banel Cyngkori Comisiynydd y Gymraeg. Penodir y Panel gan Weinidogion Cymru. Nid yw aelodau'r Panel Cyngkori yn gyflogaeth i Lywodraeth Cymru. Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn atebol i'r Panel, ond mae gan y Comisiynydd y gallu i ofyn am gyngor a gweithreda'r Comisiynydd ar sail trafodaethau gyda'r Panel.

2 Penodi'r Panel Cyngkori

- 2.1 Mae Atodlen 4, Rhan 1, Cymal 1 (1 - 4) yn nodi 'Pan fydd Gweinidogion Cymru'n penodi aelod o'r Panel Cyngkori rhaid iddynt gydymffurfio a rheoliadau penodi ac ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod o'r Panel Cyngkori os yw'r person wedi ei anghymwysu rhag bod yn aelod o'r Panel Cyngkori ar sail cyflogaeth.' Mae Atodlen 4 yn amlinellu agweddau penodi, tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau, telerau penodi, cyfnod penodiad a rheoliadau penodi. Telir tâl cydnabyddiaeth a threuliau i aelodau'r Panel Cyngkori gan Gomisiynydd y Gymraeg drwy'r gyflogres.
- 2.2 Bydd aelod o'r Panel yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad. Bydd person yn aelod o'r Panel Cyngkori am gyfnod o 3 blynedd. Yn amodol ar adolygiad, mae posibilrwydd y bydd modd adnewyddu aelodaeth am 3 blynedd bellach. Bydd aelodau yn gweithio lleiafswm o 8 diwrnod y flwyddyn.
- 2.3 Mae Atodlen 4, Rhan 1, Cymal 5 yn nodi fod rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau o'r Panel Cyngkori. Caiff rheoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi aelod o'r Panel Cyngkori.
- 2.4 Mae Atodlen 4, Rhan 2, Cymalau 6 i 9 yn nodi fod angen i aelod o'r Panel Cyngkori roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fwriad i ymddiswyddo o leiaf 2 fis ymlaen llaw. Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Panel Cyngkori os ydynt wedi ei bodloni nad yw'r person yn ffit i barhau neu os nad yw'n gallu neu'n fodlon gweithredu fel aelod o'r Panel Cyngkori. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a'r Comisiynydd cyn diswyddo aelod o'r Panel Cyngkori.
- 2.5 Mae Atodlen 4, Rhan 3, Cymal 10 yn nodi fod person yn cael ei anghymwysu rhag bod yn aelod o'r Panel Cyngkori ar sail cyflogaeth os yw'r person yn Aelod Seneddol, yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn aelod o Dribiwnlys y Gymraeg neu yn aelod o staff y Comisiynydd.
- 2.6 Mae person yn anghymwysu rhag bod yn Gomisiynydd wrth fod yn aelod o'r Panel Cyngkori.

3 Rôl y Panel Cyngkori

- 3.1 Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngkori ynghylch unrhyw fater – Rhan 3, Cymal 24 (1). Rôl y Panel Cyngkori yw cynghori'r Comisiynydd mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â'r Mesur.
- 3.2 Nid yw'r Panel Cyngkori yn ymwneud â gwaith o ddydd i ddydd y Comisiynydd nag yn cael proffil cyhoeddus.
- 3.3 Mae'r dyletswyddau fel a ganlyn:

- Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori wrth baratoi pob adroddiad blynyddol¹.
 - Mae rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori wrth baratoi pob adroddiad 5 mlynedd².
 - Os bydd y Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau, yn ymgynghori â'r Panel Cyngori rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r ymgynghoriad wrth arfer y swyddogaethau³.
 - Mae rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori wrth gynnal ymchwiliad safonau⁴. Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, bydd rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad safonau. Wedi llunio'r adroddiad safonau ar ôl cynnal ymchwiliad safonau rhaid i'r Comisiynydd anfon copi at y Panel Cyngori⁵
 - Caiff y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau⁶. Rhaid i'r Comisiynydd beidio a dyroddi, adolygu neu dynnu'n ôl god ymarfer safonau heb gysyniad Gweinidogion Cymru. Cyn ceisio'r cydsyniad hwnnw rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori.
 - Sicrhau y cedwir at Egwyddorion Nolan.
- 3.4 Wrth i'r Comisiynydd gynllunio'r gwaith ar ei Gynllun Strategol, ei Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Sicrwydd, mae modd iddo ymgynghori gyda'r Panel Cyngori.
- 3.5 Mae'r Panel Cyngori yn gweithredu fel ffrind beirniadol i'r Comisiynydd.

4 Nifer aelodau'r Panel Cyngori

- 4.1 Mae Rhan 2, Cymal 25 yn nodi y bydd o leiaf 3, ond dim mwy na 5 o aelodau ar y Panel Cyngori ar unrhyw adeg. Caiff y Comisiynydd ymgynghori a'r Panel Cyngori ynghylch unrhyw fater, gan ymgynghori ag unrhyw un neu ragor neu oll o aelodau'r Panel.

5 Cyfarfodydd y Panel Cyngori

- 5.1 Bydd y Panel Cyngori yn cyfarfod hyd at 4 gwaith y flwyddyn. Bydd disgwyl i aelodau'r Panel fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.
- 5.2 Bydd disgwyl i aelodau'r Panel neilltuo amser i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd. Gallai'r patrwm hwn amrywio dros y 3 blynedd yn ôl llwyth gwaith y Comisiynydd.
- 5.3 Disgwylir i'r aelodau fod ar gael i weithio o leiaf 6 – 8 diwrnod bob blwyddyn.
- 5.4 Cymraeg fydd iaith y cyfarfodydd a bydd cyfieithydd yn bresennol i gyfieithu os fydd hynny'n angenrheidiol.
- 5.5 Bydd gan y Panel Cyngori raglen waith blynyddol a fydd y cael ei ddrafftio'n mis Rhagfyr a'i adolygu mis Mehefin bob blwyddyn. I'r diben hwn bydd y Comisiynydd yn rhannu copi wedi ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli o'i gynllun gweithredol blynyddol gyda'r Panel Cyngori.

¹ Rhan 2, Adran 19 (1) (a)

² Rhan 2, Adran 6 (1) (a)

³ Rhan 2, Adran 17

⁴ Rhan 4, Adran 63 (3)

⁵ Rhan 2, Adran 64 (4)

⁶ Rhan 4, Adran 68 (1 - 4)

- 5.6 Ar gyfer pob cyfarfod o'r Panel, bydd yr aelodau'n derbyn:
- Trosolwg strategol o waith y Comisiynydd
 - Adroddiadau Cynnydd Chwarterol ar y Cynllun Gweithredol, er gwybodaeth

6 Rhybudd am gyfarfodydd

- 6.1 Caiff rhybudd i fynychu cyfarfodydd o'r Panel Cynghori ei gylchredeg 14 diwrnod cyn y cyfarfod un ai drwy ebost neu drwy'r post arferol gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r busnes i'w drafod. Bydd papurau yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Panel 7 diwrnod cyn y cyfarfod.

7 Lleoliad cyfarfodydd

- 7.1 Bydd cyfarfodydd y Panel yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd gan amlaf, er gall cyfarfodydd gael eu cynnal mewn lleoliadau ledled Cymru o bryd i'w gilydd, neu drwy fideo gynhadledd.

8 Ysgrifenyddiaeth

- 8.1 Comisiynydd y Gymraeg fydd yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel Cynghori.

9 Cyswllt y Comisiynydd ac aelodau'r Panel Cynghori

- 9.1 Bydd aelodau'r Panel yn gallu cysylltu'n uniongyrchol gyda'r Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd os nad yw'r Comisiynydd ar gael neu y cynorthwydd personol.

10 Trefniadau Talu

- 10.1 Bydd canllawiau talu yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Panel gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ynghyd â manylion tâl a sut i hawlio unrhyw gostau.

11 Rhoddion a Lletygarwch

- 11.1 Disgwylir i aelodau'r Panel sicrhau y gallai'r ffaith i aelodau dderbyn rhoddion a lletygarwch wynebu gwaith craffu cwbl gyhoeddus. Dylid hysbysebu ysgrifenyddiaeth y Panel Cynghori am unrhyw gynigion a wnaed ac unrhyw gynigion a wrthodwyd. Dylid sicrhau fod cofnod o unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd, neu gwrthodwyd yn cael ei wneud ar Gofrestr Rhoddion y Panel Cynghori.

12 Gwrthdaro Buddiannau

- 12.1 Rhaid i aelodau'r Panel ddatgan buddiannau personol neu fusnes a all, neu y gellir ystyried eu bod, yn dylanwadu ar ddyfarniadau'r aelodau wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y buddiannau hyn yn cael eu cynnwys ar gofrestr o fuddiannau a gedwir gan Gomisiynydd y Gymraeg a bydd y wybodaeth yn gyhoeddus ar y wefan. Rhaid sicrhau fod y manylion yn cael ei gadw'n gyfredol. Pe byddai mater penodol yn esgor ar wrthdaro buddiannau, rhaid i'r aelod hysbysu'r Panel Cynghori ymlaen llaw a thynnu'n ôl o unrhyw drafodaethau neu ystyriaethau a ddigwydd mewn cysylltiad â'r mater.